OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3017 (Cy.287)

TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS I DEITHWYR, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cyfleusterau sy'n Bodoli Eisioes) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*4 Rhagfyr 2002*
Yn dod i rym - -	*20 Rhagfyr 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 119 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Partneriaethau Ansawdd (Cyfleusterau sy'n Bodoli Eisioes) (Cymru) 2002 ac maent yn dod i rym ar 20 Rhagfyr 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "cyfathrebu electronig" ("*electronic communication*") yr ystyr a roddir i "electronic communication" gan adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**2**);

ystyr "cynllun" ("*scheme*") yw cynllun partneriaeth ansawdd; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 2000.

Pennu cyfleusterau sy'n bodoli eisioes

3.—(1) Ni all cyfleuster sy'n bodoli eisioes gael ei bennu mewn cynllun os cafodd y cyfleuster hwnnw ei ddarparu'n gyntaf mwy na deng mlynedd cyn y dyddiad pryd y rhoddwyd hysbysiad o dan adran 115(1) o'r Ddeddf.

(2) Ni all cyfleuster sy'n bodoli eisioes a gafodd ei ddarparu mwy na phum mlynedd cyn y dyddiad pryd y rhoddwyd hysbysiad o dan adran 115(1) o'r Ddeddf gael ei bennu mewn cynllun os cafwyd

(**1**) 2000 p.38.
(**2**) 2000 p.7.